# crynodeb gweithredol RESP trosiannol (tRESP)

Ysgrifennwyd gan Bridget Hartley, pennaeth RESP

Mae ein Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol (tRESP) yn rhoi man cychwyn cyson ledled Prydain Fawr ar gyfer Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu i greu eu cynlluniau buddsoddi mewn rhwydweithiau ar gyfer y rheolaeth nesaf ar brisiau dosbarthu trydan, sy'n rhedeg rhwng 2028 a 2033 (ED3). Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i gysoni cynlluniau Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu o amgylch llwybr clir a chyson sy'n cael ei lywio gan randdeiliaid ar gyfer anghenion rhwydweithiau dosbarthu trydan yn y dyfodol. Bydd allbynnau tRESP yn helpu Ofgem i adolygu cynlluniau ED3, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio mwy ar effeithlonrwydd a pherfformiad. Fel rhan o tRESP, mae NESO wedi darparu rhagolwg o'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r galw am drydan a'r cyflenwad trydan hyd at 2050, ac wedi'i ategu gan fewnbynnau lleol. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn argymell ardaloedd daearyddol lle mae angen dull strategol o fuddsoddi, gan gynnwys is-set y dylid ei hystyried ar gyfer buddsoddi cyn yr angen yn ED3. Yn bwysig iawn, mae'r allbynnau hyn yn edrych y tu hwnt i gyfnod ED3, gan alluogi rhwydweithiau i adeiladu'n effeithiol ac yn effeithlon ar gyfer y dyfodol.

Mae system ynni Prydain Fawr yn trawsnewid i ddiwallu ein hanghenion ynni cynyddol yn y dyfodol. Mae cyflymder y trawsnewidiad hwn hyd yma wedi bod yn sylweddol, ond mae angen rhagor o newidiadau nawr i sicrhau bod ein system ynni yn gallu cyfateb i uchelgeisiau cymunedau lleol a chyflawni blaenoriaethau Prydain Fawr gyfan. Fel cynllunydd strategol y system ynni annibynnol, mae NESO yn ganolog i'r newid hwn, gan weithio i ddarparu system ynni ddiogel, fforddiadwy a glân. Am y tro cyntaf, rydym yn cynllunio anghenion ynni Prydain Fawr yn y dyfodol yn strategol ar lefel Prydain Fawr, ac ar draws pob gwlad a rhanbarth.

Mae gan NESO gyfrifoldeb dros sefydlu cynllun ynni strategol cyffredinol ar gyfer Prydain Fawr, ac mae'n darparu golwg strategol ar ba ynni sydd arnom ei angen, lle mae arnom ei angen, a phryd. Mae ein rôl Cynllunio Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP) newydd yn rhan allweddol o'r dull newydd hwn. Byddwn yn dechrau cyflawni ein rôl RESP newydd yn llawn o 2026 ymlaen, a byddwn yn llunio naw Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol Lloegr a dau gynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru a'r Alban, a fydd yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2028. Bydd y cynlluniau hyn yn ymgynnull rhanddeiliaid ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau ynghylch golwg system ynni gyfan (gan gynnwys rhwydweithiau nwy, hydrogen a gwres) ar sut bydd y system ynni'n datblygu i gefnogi blaenoriaethau lleol a chyflawni nodau ledled Prydain Fawr. Drwy alluogi cydgysylltu ar draws sawl math o ynni, bydd RESP yn cefnogi buddsoddiad hyderus ac effeithlon mewn seilwaith

rhwydweithiau dosbarthu i gefnogi twf economaidd ac yn galluogi datgarboneiddio, gan leihau costau i dalwyr biliau ynni ar yr un pryd.

Cyn datblygu'r cynllun RESP llawn a dechrau symud i'r dull newydd hwn, rydym wedi creu cynnyrch trosiannol o'r enw tRESP. Dyma'r cynllun buddsoddi cyntaf o'i fath, a'i fwriad yw cefnogi gweithredwr y rhwydwaith dosbarthu trydan sydd ar y gweill ar gyfer 2028-2033 (a elwir yn ED3), drwy broses rheoli prisiau Ofgem. Gofynnodd Ofgem i NESO ddarparu'r rhaglen RESP, yn ystod 2025/26:

> *"Allbwn RESP trosiannol erbyn mis Ionawr 2026 sy'n ceisio darparu cymaint o fudd ag sy'n ymarferol i gefnogi'r broses o bennu rheolaethau prisiau ED3 tra bo swyddogaeth RESP yn datblygu i'w gallu llawn".*

Er mwyn bodloni amserlenni rheoli prisiau, mae tRESP wedi cael ei ddatblygu'n gyflym. Er mwyn i hyn ddigwydd, rydym wedi gweithio'n agos gydag Ofgem i bennu'r cwmpas a'r dull gweithredu ar gyfer tRESP, ac mae Ofgem wedi cyhoeddi llythyr agored ar gwmpas tRESP ym mis Chwefror 2025.[1] Yna, rhoddodd NESO ragor o fanylion yn ei ymateb ym mis Mawrth.[2]

Ar y pwynt hwn, pennwyd y cwmpas fel a ganlyn:

- darlun cychwynnol o dirwedd ynni a blaenoriaethau pob gwlad a rhanbarth.
- modelu llwybrau ynni tymor byr a hirdymor sy'n disgrifio'r cyflenwad a'r galw yn y dyfodol i lefel ardal Pwynt Cyflenwi'r Grid ac i wlad/rhanbarth RESP, gan gynnwys tybiaethau cynllunio cyson i'w defnyddio gan weithredwyr y rhwydwaith dosbarthu.
- nodi meysydd lle mae angen buddsoddi strategol (meysydd sy'n haeddu buddsoddiad cyn yr angen).

Mae tRESP yn dwyn ynghyd set o fewnbynnau cyson ledled Prydain Fawr i lywio gwaith cynllunio busnes Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu ar gyfer ED3. O ystyried bwriad uchelgeisiol tRESP a'r broses gyflawni drwy dîm newydd RESP, rydym wedi gweithio'n agos ac yn ailadroddol gyda'n rhanddeiliaid ar ddatblygu tRESP, i sicrhau bod tRESP yn ychwanegu gwerth ac yn gyraeddadwy o fewn yr amserlenni. Rydym wedi ymgysylltu â 2,800 a mwy o bobl drwy ein fforymau RESP, sydd wedi cael eu cynnal unwaith bob chwarter ym mhob gwlad a rhanbarth RESP.

Mae cwmpas tRESP wedi esblygu drwy drafodaethau gydag Ofgem wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu. Mae hyn wedi cael ei sbarduno gan yr angen i flaenoriaethu gwerth yr hyn y gellid ei gyflawni ar yr un pryd â pharhau ar y trywydd iawn i fodloni'r amserlen reoleiddio a osodwyd gan Ofgem ar gyfer rheoli prisiau ED3.  Rydym wedi addasu i amgylchedd polisi sy'n symud yn gyflym, er mwyn sicrhau bod ein hallbwn yn adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf ac yn parhau i fod mor gywir â phosibl. Yn ogystal â defnyddio Senarios Ynni'r Dyfodol, FES 2025[3], rydym wedi cydweithio gyda Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu ac casglon ni mewnwelediadau o'u Senarios Dosbarthu Ynni'r Dyfodol diweddaraf ac fe gynhaliom weithgaredd y mis Tachwedd hwn i gasglu

[1] Cwmpas y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol, Ofgem, Chwefror 2025
[2] Llythyr Agored ynghylch cwmpas y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol, NESO, Mawrth 2025
[3] Senarios Ynni'r Dyfodol (FES) | Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol

mwy o fewnwelediadau diweddaraf y Gweithredwyr. Mae hyn wedi sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut gallai diwygio cysylltiadau a thargedau Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU effeithio ar ein llwybrau. Rydym hefyd yn nodi bod yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net[4] wedi cyhoeddi'r Cynllun Cartrefi Clyd yn ddiweddar iawn, sy'n gosod uchelgais i ddarparu dros 450,000 o osodiadau pwmp gwres y flwyddyn erbyn 2030. Mae ein llwybrau'n rhagweld y bydd 560,000 o bympiau gwres yn cael eu gosod bob blwyddyn erbyn 2030 yng nghyd-destun 29 miliwn o gartrefi ym Mhrydain Fawr. Bydd y Llwybrau tRESP felly yn helpu i sicrhau bod y capasiti rhwydwaith angenrheidiol yn ei le er mwyn galluogi nod y Cynllun Cartrefi Cynnes o gyrraedd 'dros 450,000' o osodiadau. Mae hyn hefyd yn gyson ag uchelgais y Cynllun Cartrefi Cynnes fod 'rhaid i gwmnïau rhwydwaith fod yn barod i gefnogi gosodiad cyflym a di-drafferth o dechnolegau newydd.'

## Ein hallbynnau

Ein hallbynnau terfynol ar gyfer tRESP yw ein disgrifiad o'r dirwedd ynni ym mhob gwlad a rhanbarth (a elwir bellach yn gyd-destun y gwledydd a'r rhanbarthau), ein llwybrau ynni a thybiaethau cynllunio cyson a'n hasesiad o anghenion ynni strategol. Cyflwynir yr wybodaeth hon mewn fformat digidol ar gyfer pob gwlad a rhanbarth, gan alluogi darllenwyr i gael gafael ar yr wybodaeth sydd fwyaf perthnasol iddyn nhw, ar wahanol lefelau o fanylder.

Mae ein hallbwn digidol yng **nghyd-destun y gwledydd a'r rhanbarthau** yn rhoi darlun cyson ar draws pynciau ynni allweddol sy'n berthnasol i gynllunio rhwydwaith dosbarthu trydan ar gyfer pob gwlad a rhanbarth. Mae'n gwneud hynny drwy ddod â data at ei gilydd ar ddangosyddion allweddol, fel data gosod pympiau gwres, clystyrau a pharthau diwydiannol, ochr yn ochr ag ystyriaeth o uchelgeisiau lleol a blaenoriaethau cenedlaethol fel targedau Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU a diwygio cysylltiadau. Gallwch weld cyd-destun eich gwlad neu ranbarth yma.[5]

Mae ein **llwybrau a'n rhagdybiaethau cynllunio cyson** yn gosod cyfeiriad strategol cyson y bydd Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu trydan yn cynllunio eu rhwydweithiau ohono. Mae'r ffocws wedi newid o ddull system ynni gyfan i'r ardaloedd hynny o alw a chyflenwad trydan y rhagwelir y byddant yn newid fwyaf dros y blynyddoedd nesaf, ac felly'n cael yr effaith fwyaf ar fuddsoddi mewn rhwydweithiau dosbarthu trydan. Ar gyfer ein hallbwn, rydym wedi creu llwybr tymor byr ar gyfer pob ardal Pwynt Cyflenwi'r Grid ym Mhrydain Fawr a fydd yn rhedeg rhwng 2025 a 2035, yn ogystal â thri llwybr hirdymor a fydd yn rhedeg rhwng 2035 a 2050. Mae ein llwybrau'n cael eu datblygu ar lefel pwyntiau cyflenwi grid, sy'n ein galluogi i ddadansoddi'r system dosbarthu trydan ledled Prydain Fawr ar sail ardaloedd sy'n rhannu'r un pwynt cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uwch. Mae ein llwybrau wedi cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyflawni yn erbyn cyllidebau carbon a chanlyniadau diwygio cysylltiadau[6] Porth 2 diweddar sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU.[7] Mae ein llwybrau'n rhoi trywydd clir o ran y newidiadau i'r cyflenwad a'r galw ledled Prydain Fawr a fydd yn ofynnol i gyflawni

---

[4] Cynllun Cartrefi Clyd - GOV.UK
[5] Allbwng digidol Cyd-destun y Gwledydd a'r Rhanbarthau
[6] Canlyniadau Diwygio Cysylltiadau | Gweithredwr System Ynni Cenedlaethol
[7] Cynllun Gweithredu Ynni Glân 2030 - GOV.UK

uchelgeisiau amgylcheddol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban. Maent yn nodi y dylai cynlluniau rhwydwaith yn 2036 adlewyrchu gwasanaethu 28m o gerbydau trydan, 8m o bympiau gwres domestig, a chyflenwi 1.7m o gwsmeriaid domestig â rhwydweithiau gwres a gyflenwir gan bympiau gwres. Mae llwybrau tRESP hefyd yn dangos y bydd angen i Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu ddarparu ar gyfer 95 GW yn ychwanegol o gynhyrchu a storio dros y deng mlynedd nesaf. Gallwch chi weld y llwybrau hyn fel delweddau yma.[8]

Mae **anghenion ynni strategol** yn mapio ardaloedd daearyddol lle rydym wedi nodi bod angen dull strategol o fuddsoddi mewn rhwydweithiau trydan, cyn unrhyw angen penodol. Mae hyn yn cynnwys is-set o anghenion, ac rydym yn awgrymu y dylid eu hystyried ar gyfer buddsoddiad rhagweithiol gan weithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu yn y gwaith o reoli prisiau ED3. Mae ein barn wedi cael ei llywio drwy ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid allanol, pan gyflwynodd 400 a mwy o sefydliadau dystiolaeth yn ystod haf 2025 i'n helpu i ddeall anghenion ynni strategol yn dilyn cais NESO am wybodaeth. Mae'r wybodaeth hon wedi cael ei hasesu ac mae archwiliadau sicrwydd wedi cael eu cynnal i sicrhau nad yw'r galw rhwng ein llwybrau ac allbynnau anghenion ynni strategol yn cael ei gyfrif ddwywaith. Bydd y prosiectau hynny sydd yn gynnar yn y broses ddatblygu – ac felly heb eu hasesu eto i fod angen eu hystyried ar gyfer buddsoddi rhagweithiol mewn rhwydweithiau – yn sail i'n cofrestr o fewn y datblygiad ar gyfer RESP llawn. Gallwch chi weld beth mae hyn yn ei olygu i'ch gwlad neu ranbarth drwy wylio ein hallbwn digidol yma.[9]

Rydym yn disgwyl i’n hallbynnau tRESP (ac RESP yn y dyfodol) lywio prosiectau buddsoddi strategol ar rwydweithiau Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu, er mwyn helpu i sicrhau bod rhwydweithiau dosbarthu ar gael mewn pryd i fodloni gofynion yn y dyfodol. Byddai prosiectau buddsoddi strategol fel arfer yn cymryd sawl blwyddyn i’w cynllunio a’u cyflawni. Nid yw hyn yn effeithio ar brosesau presennol sy’n cael eu rhedeg gan Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu, a dylai cwsmeriaid barhau i ddilyn y broses gysylltu.

## Y Camau Nesaf

Drwy gydol y rhaglen, rydym wedi cydweithio â Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu ac Ofgem i sicrhau bod modd defnyddio ein hallbynnau yn effeithiol ym mhroses ED3. Bydd Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu yn cyhoeddi eu Cynlluniau Busnes ED3 erbyn diwedd eleni. Bydd y rhain yn cael eu datblygu yn unol â chanllawiau Ofgem, a bydd tRESP yn fewnbwn allweddol i Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu sy'n datblygu eu cynlluniau busnes. Mae hyn yn gam sylweddol ymlaen o ran sicrhau cysondeb ac eglurder ar draws Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu, gan helpu i sbarduno buddsoddiad rhagweithiol cyn yr angen.

Ar ôl cyflwyno cynlluniau busnes ED3, bydd NESO yn chwarae rhan yn y gwaith o roi sicrwydd i Ofgem bod allbynnau tRESP wedi cael eu defnyddio'n briodol gan Weithredwyr y Rhwydweithiau Dosbarthu. Rydym hefyd yn disgwyl parhau i weithio gyda Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu ac Ofgem wrth i'r cynigion buddsoddi strategol mewn anghenion ynni gael eu datblygu ymhellach

[8] Allbwng Digidol Llwybrau

[9] Allbwng Digidol Anghenion Ynni Strategol

i sicrhau ein bod yn deall sut bydd y cynlluniau hyn yn llywio'r Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol llawn yn y dyfodol.

Mae’r broses o gyflawni'r rhaglen wedi bod yn ddarn o waith gwirioneddol gydweithredol, na fyddai wedi bod yn bosibl heb fewnbwn amserol ac adborth adeiladol gan Ofgem a Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu yn ogystal â mewnbwn ehangach gan randdeiliaid lleol. Drwy'r dull cydweithredol hwn, rydym wedi cyflawni cam ymlaen o ran cynllunio'r rhwydwaith dosbarthu trydan yn gyson a galluogi buddsoddiad rhagweithiol cyn yr angen yn y rhwydweithiau hanfodol hyn. Byddwn yn defnyddio'r profiad ymarferol gwerthfawr hwn i ddatblygu ein RESP llawn. Mae’r dull gweithredu a’r broses rydym wedi bod drwyddi ar gyfer tRESP eisoes yn llywio’r gwaith o ddatblygu methodoleg lawn RESP a’n dull cyflawni. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein methodoleg RESP gymeradwy yn ystod haf 2026, gan nodi ein dull gweithredu ar gyfer y RESP llawn, a chyflawni'r RESPs llawn erbyn diwedd 2028.